Cylchlythyr ecodyfi Gaeaf 2005-6

Croeso Bev, ond heb ffarwelio â Tom

Ym mis Ionawr 2006 ymadawodd Tom O'Kane er mwyn cael dilyn rhai o'i ddiddordebau eraill – yn cynnwys Sati, ei fabi newydd, a chynlluniau adeiladu newydd – ond gellid dweud i ni gael ychwanegiad i'r staff yn hytrach na cholli neb. Oherwydd yn ogystal â dyfodiad Bev Dimmock i ymgymryd â chyfrifoldebau Swyddog Cynllun Byw'n Gynaliadwy ym mis Chwefror, rydym eisoes wedi croesawu Tom yn ôl i drefnu cwrs garddio "Ewch Ati i Arddio" a sefydlwyd ganddo ef ac Ian Mitchell yn 2005.

Bydd Bev yn canolbwyntio'n bennaf ar gynllun Ôl-troed Ecolegol ar gyfer Dyffryn Dyfi. Mae cefnogaeth tymor byr gennym dan gynllun SPIRIT II YSBRYD Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys a noddir gan yr Undeb Ewropeaidd, a hefyd gan WWF ac Amgylchedd Cymru. Ein gobaith hefyd yw gweithredu prosiect hir dymor mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dechnoleg Amgen a WWF. Bydd pobl ifanc yn cymryd rhan drwy helpu i fesur effaith amgylcheddol cartrefi'r fro yn ogystal â'r ardal yn gyffredinol, ac yna – wrth reswm – mynd ati i leihau'r effeithiau hyn.

Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a Fforwm Aelodau Hanner Blynyddol

Daeth 50 o bobl i'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mehefin 2005 a chawsant glywed am y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda phartneriaid lleol i roi hwb i'r economi lleol ac i ddod â phobl ynghyd.

Cafwyd canmoliaeth i'r grŵp gan Simon Thomas, cyn AS Ceredigion, oherwydd iddynt ysgogi pobl leol i fynd i'r afael â phynciau o bwysigrwydd byd-eang fel newid hinsawdd.

Bu'n annog aelodau i osgoi'r perygl o wneud dim byd ond oherwydd bod y broblem i'w gweld yn un mor fawr.

"Ond i ni oll wneud ein rhan mi fydd yn gwneud gwahaniaeth", meddai.

Yn wyneb yr hyn a ddywedodd yw "ein sialens fwyaf", awgrym Mr Thomas oedd y gallwn ddefnyddio grym y prynwr i ddylanwadu ar fusnesau mawr, ein pleidlais i roi pwysau ar Lywodraeth a'n llais i addysgu'n gilydd.

Dewch i'n Fforwm Aelodau Hanner Blynyddol ar Fawrth 2 yng Nghlwb Bowlio Machynlleth gyda'n siaradwr gwadd, yr Athro Peter Midmore – bydd croeso yno i bawb! Rydym am eich help i benderfynu ar flaenoriaethau a chwblhau ein blaengynllun.

Peidiwch ag anghofio'r bag!

Siopa'n lleol yw un o'r camau hawsaf a mwyaf syml y gallwn ei gymryd i leihau ein hôl-troed ein hunain – ac nid drwy ddewis nwyddau a gynhyrchwyd yn lleol yn unig, ond hefyd cefnogi siopau annibynnol lleol. Bydd llysiau ffres a dyfwyd yn lleol hefyd yn llawer iachach i chi – gan fod y cynnwys fitaminau yn gostwng yn arw o fewn diwrnod neu ddau. A beth am gludo'ch bwyd ffres a lleol yn un o fagiau jiwt bioddiraddadwy **ecodyfi**? Bydd y geiriau arno'n atgoffa pawb y dylent hwythau hefyd fod yn siopa'n lleol. £3 yn unig i aelodau – maent ar gael yn NhŶ Bro Ddyfi.

Lleihau gwastraff & biodiesel

Yn ystod 2005, cynhaliodd Tom arolwg o'r gwastraff a gynhyrchir gan fusnesau Dyffryn Dyfi. Mae Bev wedi etifeddu ei adroddiad a bydd yn ystyried y posibiliadau sydd ar gael i wella'r sefyllfa. Yn y cyfamser bu ecodyfi'n cydweithio ag Asiantaeth Ynni Canolbarth Cymru a Dilwyn Jenkins i ymchwilio'r potensial ar gyfer cynhyrchu biodiesel yn lleol gyda hen olew llysiau. Disgwylir yr adroddiad ymhen ychydig. Cafodd y ddau gynllun eu cyllido gan Glasu, menter i ysgogi mwy o ddefnydd ar gynnyrch naturiol ym Mhowys, a gefnogir yn ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd.

Cysylltu â ni:

Tŷ Bro Ddyfi,
52 Heol Maengwyn,
Machynlleth, Powys,
SY20 8DT
Ffôn: 01654 703965
info@ecodyfi.org.uk
www.ecodyfi.org.uk

- Cronfa wybodaeth ar gyfer y gymdeithas gyfan
- Ffurflenni ymaelodi ar-lein - ymunwch â ni am £1; mae angen eich cefnogaeth arnom.

Beth yw ecodyfi?

- Grŵp adfywio cymunedol Dyffryn Dyfi
- Gyda chynlluniau ym meysydd gwastraff, ynni adnewyddadwy, twristiaeth, cynllunio cymunedol, cludiant a mwy
- Yn ymroddi i gryfhau'r economi lleol drwy oruchwylio adnoddau naturiol a diwylliannol yn ofalus
- Dan reolaeth Bwrdd ag arno 17 o ffermwyr lleol, pobl fusnes a gwirfoddolwyr eraill
- Yn derbyn nawdd gan Awdurdod Datblygu Cymru

Bwrdd ecodyfi

Aled Griffiths, Glantwymyn, Co-Chair
Alun Jones, Cadfarch
Andy Rowland, Machynlleth
Bev Dimmock, Machynlleth
Ellen ap Gwynn, Ceulanamaesmawr
Gill Jones, Glantwymyn
Guy Pargeter, Llangynfelin
Jonathan Hill, Machynlleth
Marit Olsson, Corris
Martin Ashby, Glantwymyn, Co-Chair
Nick Smyth
Paul Allen, Corris
Peter Jones, Cadfarch
Teresa Walters, Borth
Ursula Byrne, Ysgubor y Coed

Ecodyfi: meysydd newydd

Mentro Allan
Ecodyfi yw'r corff arweiniol ar gyfer partneriaeth leol sy'n cynllunio prosiect lles newydd yn Nyffryn Dyfi. Prosiect Cymru gyfan yw "Mentro Allan" sydd â'r nod o gynyddu lefelau gweithgarwch ymysg y boblogaeth eisteddog 'anodd i'w hysgogi' drwy gynyddu'r defnydd hamdden a wneir o'r amgylchedd naturiol. Bydd nawdd y prosiect yn para am bedair mlynedd os y bydd y cais i'r Gronfa Loteri Fawr yn llwyddiannus. Ein prif grwpiau targed yw

- Rhieni plant ifanc, yn enwedig rhieni ifanc
- Pobl ifanc o 11 i 18 oed, yn enwedig rhai mewn perygl o gael eu heithrio
- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl

Ein gobaith yw darparu llwybrau cyfeiriadu a thrysor, golff, beicio ac amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl wedi'u lleoli mewn coed. Rydym yn gweithio gyda CAMAD, Cychwyn Cadarn, y Mudiad Ysgolion Meithrin ac eraill. Rhowch alwad i ni os oes gweithgareddau gennych i'w cynnig neu awydd arnoch i roi help llaw gyda'r trefnu!

Prosiect cydlyniant cymunedol Carnegie
Mae ecodyfi, ar y cyd â Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru a phartneriaid lleol, wedi cyflwyno cynnig i Ymddiriedolaeth Carnegie i geisio cefnogaeth i brosiect cydlyniant cymunedol tymor hir yn Nyffryn Dyfi. Gweledigaeth y gweithgor yw Dyffryn "lle y gall pob rhan o'r gymuned fforddio byw, gyda bywoliaeth sy'n eu bodloni ac ansawdd bywyd da, er mwyn i bobl ifanc fod eisiau aros a/neu ddychwelyd. Bydd egni mawr pobl y fro wedi'i roi ar waith a'i uno a'u hamrywiaeth yn dal i gael ei ddathlu." Mae'r prosiect yn bwriadu creu lle cymunedol (yn y Plas?) drwy broses fydd yn dod â phrif ffrydiau diwylliannol y dyffryn ynghyd i gyflawni dibenion sy'n gyffredin iddynt ac a fydd yn adlewyrchu eu traddodiadau gwahanol.

Ysbryd y Mwynwyr
Mae Cynghorau Cymuned Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysgubor y Coed, dan gydlyniaeth **ecodyfi** a'r Cynghorydd Sir, Ellen ap Gwynn, yn ceisio am nawdd i lunio byrddau dehongli a thaflenni fydd yn amlinellu hanes mwyngloddio lleol ac yn dwyn sylw at lwybrau cyhoeddus yr ardal, llawer ohonynt yn rhai a dramwywyd yn wreiddiol gan yr hen fwynwyr. Rydym hefyd yn gweithio ar gynlluniau tebyg gyda Chymdeithas Treftadaeth Llandre fyddai'n cynnwys gwella mynediad i ran o Dramffordd Hafan uwchlaw Tal-y-bont.

Cronfa leol dan weinyddiaeth Cyngor Sir Ceredigion yw Ysbryd y Mwynwyr. Ei hamcan yw hyrwyddo twristiaeth a datblygu economaidd wedi'u seilio ar dreftadaeth gyfoethog yr hen fwynfeydd fu am ganrifoedd mor bwysig i economi gogledd Ceredigion. Mae'n cynnwys arian Amcan 1 o Ewrop yn ogystal ag arian gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

Daeth cynulleidfaoedd lluosog a chyfranogol i gyfarfodydd a gynhaliwyd yn Nhal-y-bont a Thaliesin ym mis Tachwedd 2005, ar gyfer cyflwyniadau ar hanes y cylch ac i rannu o'u hatgofion. Mae rhagor o'r rhain ar y gweill.

Prosiectau newydd twristiaeth

Samhain – yn dod â budd i'r Economi Lleol
Yn ystod gorymdaith lusernau Samhain ym mis Hydref 2005, gwelwyd 200 o blant yn cludo llusernau, yn ogystal â 200 o oedolion, yn gyfranogwyr a pherfformwyr, oll dan gyfarwyddyd 50 o stiwardiaid diogelwch gwirfoddol, yn llenwi'r strydoedd gydag arddangosfa o lusernau seiliedig ar thema Amser.

Bu Martine, un o wirfoddolwyr ecodyfi, yn cyfweld 100 o bobl (yn cynrychioli 329 o unigolion) o'r dorf fawr oedd yn gwylio yn y strydoedd, er mwyn canfod o ble y daethon nhw a'u teulu/aelodau'r grŵp. Datgelwyd bod 39% yn aros oddi cartref dros nos, fod 13.6% yn treulio'r dydd/gyda'r nos yn unig yn y digwyddiad/ardal a bod 47.4% yn hanu o'r gymdogaeth. Mae hyn yn newyddion da i Fachynlleth – ar gyfartaledd bydd ymwelwyr dros nos yn gwario £38 bob dydd. Mae hefyd wedi sbarduno gwirfoddolwyr ar y pwyllgor, trefnwyr a darparwyr twristiaeth i ddechrau meddwl am fanteisio mwy ar wythnos hanner tymor.

Cyllidwyd y digwyddiad gan Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Sir Powys yn ogystal â llu o fusnesau lleol ac unigolion. Roedd yn cynnwys 10 o sesiynau gwneud llusernau a gynhaliwyd yng Ngheltica yn ystod yr wythnos flaenorol

Hyfforddiant mewn Adeiladu Llwybrau Beicio Mynydd
Mae'r Prosiect Hyfforddiant mewn Adeiladu Llwybrau Beicio Mynydd erbyn hyn wedi hyfforddi 8 o bobl leol a dysgu sgiliau gwerthfawr iddynt.

Bu'r prosiect 13 wythnos, a ddechreuodd ym mis Tachwedd y llynedd, ar waith mewn amryw o rannau anghysbell o Goedwig Dyfi – lle bynnag y bo ei angen i wneud gwelliannau a gosod wyneb newydd. Felly, yn ogystal â hyfforddi pobl, mae Beicio Mynydd Dyfi wedi sicrhau gwelliannau mawr i'r llwybr.

Bu'r rhai dan hyfforddiant yn dysgu pob agwedd o adeiladu llwybrau, gosod wyneb, cynnal a chadw yn ogystal â datblygu nifer o sgiliau allweddol. Maent hefyd yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant arbenigol, megis gweithio gyda llif gadwyn.

Ariennir y rhaglen hyfforddi gan y Gronfa Risg Gymdeithasol, sydd â'r nod o sicrhau adfywiad economaidd, trwy wella lefelau sgiliau a chynyddu'r mynediad i hyfforddiant a gwaith. Mae goruchwylwyr y prosiect yn cynnwys Tristan Merry-Howe o Ecotrails, y cwmni a adeiladodd y Cli-machx. Pedair blynedd yn unig yn ôl roedd Tristan ei hun o dan hyfforddiant ar brosiect hyfforddi tebyg mewn adeiladu llwybrau beiciau mynydd yn Nant yr Arian ger Aberystwyth. Yn ôl Tristan, "roedd yn ddechrau gwych i mi, yn dysgu sgiliau gwerthfawr mewn diwydiant sy'n tyfu'n sector bwysig".

Marchnata Twristiaeth Ecolegol
Mae ecodyfi, ar y cyd â'u partneriaid Arriva, RSPB, y Ganolfan Dechnoleg Amgen, Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, y Wynnstay, Eco Retreats a hostel Canolfan Corris, yn cynllunio prosiect marchnata twristiaeth ecolegol fydd yn ceisio dod ag ymwelwyr "cyfrifol" hael eu gwariant i'r ardaloedd i fwynhau gwyliau ecolegol byr hunan-drefnu.

Hyfforddiant mewn Rheoli Digwyddiadau
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu **ecodyfi** yn gweithio i ddod â threfnwyr digwyddiadau at ei gilydd i rwydweithio, rhannu adnoddau a chyfuno'u hymdrechion lle bo modd. Eleni rydym wrthi'n cyflwyno rhaglen sy'n cynnwys sesiynau hyfforddi ar gyfer trefnwyr digwyddiadau, dan ofal Sam Morton ac Annie Grundy, sy'n rheolwyr digwyddiadau proffesiynol, a gyda nawdd gan Medrwn, hwyluswyr hyfforddiant yn y diwydiant twristiaeth drwy Ganolbarth Cymru. Bu sesiwn flasu ar Ionawr 12fed yn fodd o ganfod anghenion lleol a bydd rhagor o sesiynau'n cael eu cynnal yn ystod y Gwanwyn – cysylltwch â Medrwn, Tŷ Glyndŵr, Machynlleth, Powys, SY20 8WW os am wybodaeth am y sesiynau hyn neu i roi gwybod iddynt am eich anghenion hyfforddi. Ffôn: 01654 704201; enquiries@medrwn.org.uk.

Ecodyfi yn gweithio

Hyfforddiant garddio organig Dyffryn Dyfi!

- CWRS AM DDIM yn dechrau Mawrth 2006 – gwnewch gais ar unwaith!
- Sicrhewch dystysgrif garddio organig
- Cwrs ymarferol a gynhelir mewn gardd furiog organig weithredol
- Croeso i bawb o bob oed a gallu
- Heb amser i'w sbario? Yna ymunwch â'n cwrs drwy'r post neu ar y we!!

Am fwy o fanylion cysylltwch â Tom O'Kane, 01654 703 965 / 01970 832993
tom.okane@ecodyfi.org.uk

"Ewch Ati i Dyfu" yn Ennill Gwobr

Mae gwefan Ewch Ati i Dyfu, a ddatblygwyd gan y dylunydd David Thorpe o Cyberium, dan gyfarwyddyd Tom a gyda dyddiadur lluniau wythnosol Teresa, wedi ennill gwobr AOL ynghyd â £2000!

Mae hyn yn cyflenwi peth o'r arian sydd ei angen arnom i ddatblygu'r wefan ac ehangu'r gwaith i gynnwys ysgolion cynradd detholedig. Bydd Rhaglen Anghydraddoldebau mewn Iechyd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol unwaith yn rhagor yn darparu cefnogaeth ariannol.

www.ecodyfi.org.uk/growing

Adeiladau Cymunedol

Dyfodol y Plas, Machynlleth
Mae Fforwm Cymuned Leol Machynlleth a'r Cylch (gydag ecodyfi yn darparu Ysgrifenyddiaeth) yn cydlynu'r broses gyfathrebu rhwng y gymuned a Chyngor Sir Powys ynglŷn â'r defnydd a wneir o'r adeilad pwysig yma pan fydd Celtica yn cau. Sefydlwyd Grŵp Llywio i lunio cynigion ar gyfer canolfan amlbwrpas dan reolaeth gymunedol. Mae Gweithgorau yn canolbwyntio ar:

- Leoedd swyddfa a stiwdio i'w rhentu
- Annog casgliad o fentrau creadigol yn defnyddio fideo a cyfryngau newydd eraill
- Weithgareddau cymunedol, a lle perfformio fyddai'n ategu cyfleusterau'r Tabernacl
- Addysg a threftadaeth, addysg gymunedol ac anghenion pobl ifanc

Nid oes sicrwydd y bydd modd llunio cynllun ymarferol gyda'r syniadau yma ond mae nifer fawr o unigolion wrthi'n cyfrannu llawer o waith a dychymyg. Os ydych am gymryd rhan, cysylltwch ag Andy Rowland ar 01654 703965 neu Meic Llewellyn yn meic@vaw.org.uk.

Bydd angen peth amser ar y cynlluniau tymor hir i ddatblygu a denu nawdd, felly mae grŵp

Sion Aeron yn siarad am y Plas

cysylltiedig mewn cyswllt â'r Cyngor ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd yn y cyfamser. Ein gobaith yw y cedwir y drysau'n agored ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau.

Y newyddion diweddaraf ynglŷn â Hen Ysgol Bontgoch
Bu ecodyfi, gyda chyllid a dderbyniwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru, yn cefnogi gwaith dichonoldeb gan y grŵp cymunedol yn Bontgoch ynglŷn ag ailagor yr unig adeilad cymunedol yn y pentref. Yn sgîl hyn, gwrthododd pwyllgor cynllunio Cyngor Sir Ceredigion gais i newid defnydd yn ddefnydd preswyl. Mae'r perchnogion yn awr wedi ei roi ar y farchnad ac mae Cymdeithas Elerch wrthi'n ymchwilio sut y gellid codi'r arian.

Llyfrau o ddiddordeb lleol



Cofiwch ddarllen ***Curious Incidents in the Garden at Night-time***, llyfr hynod Allan Shepherd o'r Ganolfan Dechnoleg Amgen. Hwn oedd llyfr gorau'r Nadolig yn ôl pleidlais yn *Garden Answers Magazine*! Eu disgrifiad nhw ohono yw "llyfr garddio ymarferol ... a nofel hefyd yn ogystal â chwedl amgylcheddol ... (a) chipolwg hudolus ac unigryw ar fyd planhigion ac anifeiliaid nosol."

Mae'r llyfr anarferol hwn yn bwrw golwg dros esblygiad, ecoleg a difodiant drwy lygaid garddwr, ond gan hefyd ddarganfod harddwch neilltuol yr ardd gyda'r nos a'r creaduriaid sy'n byw ynddi. Mae'r gyfrol ar werth yn Siop y Chwarel ac yn siop CAT. Bachwch eich copi!

£8.99 ISBN: 1-90217-525-5

A Tale of Two Rivers

Yn cyplysu delweddau lliw adleisiol o waith Jane Napier gyda hanesion o'r oes o'r blaen a chyfoes gan Alun Richards, sy'n tywys y darllenydd ar daith o'r mynydd i lawr at y môr ar hyd afonydd Dyfi a Mawddach.

£12 + £1.50 p&p oddi wrth
info@jean-napier.com
ISBN: 0-86381-989-3



Datrysiadau

Erthygl Nodwedd: “Powerdown” + Ynni Adnewyddadwy: datrys problemau uchafbwynt cynhyrchiant olew a newid hinsawdd. Paul Allen & Alex Randall, CAT

Mae’r rhan fwyaf o’r prif wyddonwyr hinsawdd erbyn hyn wedi dod i’r casgliad y byddwn, os yr aiff y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchwn yn fyd-eang dros ‘drothwy’ tyngedfennol y Ddaear, yn troedio ar lwybr fydd yn ein harwain tuag at newid hinsawdd disymwth, cynyddol neu ddireolaeth. A hyd yn oed o gyrraedd ein targedau newid hinsawdd, all dynoliaeth ond osgoi mynd dros y ‘trothwy’ drwy i wledydd eraill ein hefelychu. Mae datblygu ‘ateb byd-eang’ fydd yn cwmpasu ein holl anghenion yn hanfodol. Awgrym y brif strategaeth bosibl yn hyn o beth, ‘Lleihau a Chydgyfarfod’ (‘Contraction and Convergence’), yw y bydd rhaid i ni yn y gorllewin gorddatblygedig leihau lefelau’r nwyon a gynhyrchwn er mwyn cydgyfarfod a rhannu ‘cyfran deg’ â mwyafrif y byd.

Ar yr un pryd, mae ein heconomïau olew diatal yn awr yn cael eu harafu a’u stopio gan ffeithiau disymud daeareg. Yn hytrach na thrafod pryd y gallai’r olew ddod i ben, mae’r arbenigwyr ar uchafbwynt cynhyrchiant olew (yn yr un modd â M. King Hubbard yn ôl yn 1956) yn rhagweld y gallai lefelau cynhyrchu byd-eang, ar waetha’r galw cynyddol, fod yn cyrraedd eu huchafbwynt yn awr. O ystyried hyn yng nghyd-destun y galw cynyddol, bydd prisiau rhwym o gynyddu’n aruthrol a mynd yn fwy a mwy anwadal.

Er gwaetha rhybuddion cyson oddi ar ddaearegwyr ac economegwyr olew o bob rhan o’r byd, ychydig iawn a wnaethpwyd ynglŷn ag uchafbwynt cynhyrchiant olew gan mai’r gred gyffredinol yw y bydd y farchnad rydd yn datrys y broblem. Fodd bynnag, lle bo cynhyrchiant yn achos y rhan fwyaf o nwyddau yn cynyddu wrth i brisiau godi, ni all pris olew ddylanwadu ar faint ohono sydd ar gael. Ar ben hyn, ni allwn gymryd yn ganiataol, wrth i olew fynd yn brin a drud, y bydd dulliau eraill o gynhyrchu wrth law i lenwi’r bwlch.

Mae Prydain eisoes wedi disbyddu mwy na hanner o’i hadnoddau o dan Fôr y Gogledd. Rydym yn dibynnu’n gynyddol ar fewnforion i redeg ein rhwydwaith ynni. Mae hyn yn ein gadael mewn sefyllfa wan. Ac wrth i’n technoleg echdynnu ddatblygu fwyfwy, mae ein defnydd ohono’n cynyddu yr un mor gyflym!

Er fod problemau uchafbwynt cynhyrchiant olew a newid hinsawdd yn cydgysylltu mewn llawer o wahanol ffyrdd, y cyswllt pwysicaf yw’r modd y gellir defnyddio un ateb - ‘Powerdown ac Ynni Adnewyddadwy’ – i liniaru’r naill a’r llall. Golyga “Powerdown” lawer mwy nag effeithlonrwydd ynni: yn hytrach na chwilio’n unig am labeli gwyrdd “12% yn fwy ynni-effeithlon” wrth i ni brynu oergell, byddwn yn ystyried a oes wir angen oergell arnom – a’r hyn a roddwn ynddo. Yn sgîl y drefn amaethyddiaeth ddiwydiannol fyd-eang sydd ohoni, rydym yn defnyddio 10 calori mewn petrocemegion i gynhyrchu un calori o fwyd. Byddai newid i ddiet: sy’n cynnwys ond ychydig o gig, sydd heb ei brosesu, sy’n organig i raddau helaeth, ac a gynhyrchwyd yn lleol, nid yn unig yn gwella ein hiechyd a’n lles yn gyffredinol, ond byddai hefyd yn lleihau dibyniaeth ein harferion bwyta ar danwyddau ffosil yn arw (a hefyd yn lleihau ein hangen am yr oergell yna!)

Byddai yn golygu newid mawr yn ein diet – ond oni ddylem fod yn gwneud hynny beth bynnag? Drwy ddileu y bwyd a wrthodir gan archfarchnadoedd, yn ogystal â gwastraff domestig a gwastraff prosesu bwyd, byddwn yn camu’n fras tuag at fod yn hunan-ddibynnol. Ar yr un pryd byddwn yn lleihau’r olew a ddefnyddir i’w ddarparu yn arw ac yn gwella ein hiechyd a’n lles wrth wneud hynny.

Nid yw tyfu cnydau arian diwydiannol yn ateb tymor hir i dlodi mewn gwledydd tramor chwaith. Pedlera dibyniaeth ar olew sy’n prinhau o ddydd i ddydd ydym ni er mwyn medru boddio ein chwant hunanol am nwyddau egsotig rhad.

Mewn llawer o feysydd - nid yn unig y diwydiant bwyd, ond hefyd adeiladau, ynni, dŵr, gwaith, dillad, gwresogi, gwyliau a gofal iechyd – gallai mynd i’r afael â’n caethiwed i olew wella ein lles yn sylweddol, gan hefyd ganiatáu i fwyafrif y byd gael yr ynni a’r adnoddau y mae dirfawr eu hangen arnynt i fedru gwella eu lles.

Unwaith y llwyddwn i leihau ein defnydd ynni i gydgyfarfod â’n cyfran deg ohono, bydd ei gyflenwi o ffynonellau adnewyddadwy nid yn unig o fewn ein gallu, ond daw yn fuan iawn yn gost-effeithiol wrth i bris olew fynd i’r entrychion. Bydd hefyd yn llawer mwy dibynadwy petai cyflenwadau olew yn mynd yn fylchog.

Felly byddai strategaeth ‘powerdown ac ynni adnewyddadwy’ nid yn unig yn lleihau neu achub y blaen ar broblemau newid hinsawdd a diwedd ein cyflenwadau tanwyddau ffosil ac adnoddau niwclear; byddai hefyd yn sicrhau bod Prydain mewn sefyllfa lawer gwell i ymdopi. A’r hyn sy’n wych ynglŷn â defnyddio cyflenwadau adnewyddadwy yn hytrach na chronfeydd megis olew, yw y bydd yr ynni sydd ar gael i ni, wrth i’n technoleg echdynnu wella, yn cynyddu, am byth!

Erthygl lawn ar-lein yn http://www.ecodyfi.org.uk/energy/powerdown.htm Gweler hefyd: y Ganolfan Dechnoleg Amgen www.cat.org.uk ; Association for the Study of Peak Oil and Gas yn http://www.peakoil.net/ ; Richard Heinberg, *Powerdown: Options and Actions for a Post-Carbon World* (Clairview Books, 2004)

Arbedwyr Hadau

Mae arbed hadau’n hen grefft a fyddai wedi mynd dros gof oni bai am bobl megis Imogen Pettitt, Cydlynydd lleol yr Arbedwyr Hadau. Bu wrthi’n trefnu digwyddiadau cymunedol hynod lwyddiannus gan gynnwys 2 Ddydd Sul yr Hadau, achlysur cyfnewid mân blanhigion a Diwrnod Coed, yn ogystal ag ymweliadau amrywiol a sesiynau hyfforddi ar gyfer pobl â’u bryd ar wybod mwy am dyfu hadau yn organig (ac agweddau gwleidyddol y mater). Y llynedd rhoddwyd nawdd iddi gan Glasu i gynhyrchu llenyddiaeth ar destun hynod ddifyr arbed hadau ac mae hi wrthi ar hyn o bryd yn casglu arian eto er mwyn sicrhau y gall y prosiect barhau i ffynnu.

Cynllun Dinas a mwy o fylbiau golau ynni-isel

Daeth y Nadolig yn gynnar i Ddinas Mawddwy wrth i wirfoddolwyr a staff Asiantaeth Ynni Canolbarth Cymru, ecodyfi ac Adfywio Mawddwy ddosbarthu bylbiau trydan ynni-isel drwy’r pentref.

Bu’r tîm, aeth o dŷ i dŷ ym mis Tachwedd 2005, yn gofyn i ddeiliaid y tai ateb ychydig o gwestiynau syml am fframwaith y tŷ, yr ynni a ddefnyddir i’w wresogi a’u hagwedd tuag at wresogi cymunedol. Nod y fenter yw gostwng biliau gwresogi pobl trwy roi gwybod iddynt sut i wastraffu llai o ynni. Bydd y bylbiau trydan yn helpu ar unwaith - ac mae posibiliadau eraill yn cynnwys gosod deunydd inswleiddio o gwmpas tanciau dŵr poeth ac mewn gwagleoedd yn yr atig.

Bydd Alexis Williams o Asiantaeth Ynni Canolbarth Cymru yn adeiladu ar y gwaith drwy gynghori pobl ynglŷn â grantiau fyddai’n gwneud y camau hyn yn rhai fforddiadwy – neu hyd yn oed yn rhad ac am ddim i rai pobl.

Mae’r grŵp cymunedol Adfywio Mawddwy, sydd wrthi’n gweithio i adfywio pentrefi Aberangell, Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy, wedi cynnig y dylid sefydlu cynllun cymunedol gwresogi â sglodion coed ar gyfer Dinas Mawddwy. Eglurodd Ysgrifennydd Adfywio Mawddwy. Arfon Hughes, fod y grŵp am gwrdd ag anghenion lleol trwy ddefnyddio adnoddau lleol a chefnogi coedwigaeth, amaethyddiaeth a swyddi cynnal a chadw. “Mae prynu ynni a gynhyrchir yn lleol yn cadw arian yn y gymuned leol am fwy o amser”, meddai. Roedd yr arolwg byr hefyd yn gofyn i bobl a fyddent am brynu gwres ohono pan fydd wedi’i sefydlu.